Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Greenfields

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2015

gan


**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Greenfields yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli yn un o faestrefi Casnewydd. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion 11 i 18 oed ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, sy'n preswylio yng nghartrefi plant y cwmni. Mae'r holl ddysgwyr yn derbyn gofal ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Dechreuodd y pennaeth presennol yn yr ysgol yn Nhachwedd 2014. Yn ddiweddar, mae'r sefydliad wedi penodi pennaeth addysg i gynnig cymorth a her i'r ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- Mae staff yn cydweithio'n dda i greu ethos digynnwrf, cadarnhaol a phwrpasol, sydd wedi arwain at ymddygiad gwell mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- Yng nghyfnod allweddol 4, fe wnaeth yr holl ymadawyr yn 2015 gyflawni dau TGAU a symud ymlaen i addysg bellach
- Mae disgyblion yn gofalu eu bod yn cynhyrchu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda
- Mae staff yn cynnwys disgyblion yn dda mewn gwneud penderfyniadau drwy'r cyngor ysgol; mae penderfyniadau diweddar yn cynnwys newidiadau i'r system wobrau a rheolau ynghylch ysmygu
- Mae digon o le yn yr adeiladau; mae'r sefydliad yn gweithio i ddatblygu ardaloedd dan do ac awyr agored ymhellach i wneud y mwyaf o'r cyfleusterau sydd ar gael
- Mae'r ystafelloedd dosbarth yn cynnig amgylchedd dysgu addas; mae arddangosiadau deniadol ar waliau yn dathlu cyflawniadau disgyblion
- Mae'r sefydliad wedi penodi pennaeth addysg yn ddiweddar i roi cymorth a her i'r ysgol, er mae'n rhy gynnar eto i weld effaith hyn

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Nid yw'r polisi diogelu yn amlinellu'n ddigon clir beth y mae angen i'r swyddog diogelu dynodedig ei wneud os bydd datgeliad gan ddisgybl
- Nid yw pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd yn y bore
- Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn adolygu ei pholisi ar gosbau ac wedi cytuno ar gosbau fesul cam gyda chyngor yr ysgol, sy'n cael ei dreialu yn ystod yr hanner tymor hwn; mae'r ysgol yn bwriadu diweddaru'r polisi ymddygiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn
- Er bod y sefydliad yn cadw cofnod canolog o wiriadau cyn cyflogi, nid yw hyn yn cynnwys dyddiad cynnal y gwiriadau fel yr argymhellir yn arweiniad Llywodraeth

Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 158/2015

- Er bod staff yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu, ni chofnodir y wybodaeth hon mewn un man; o ganlyniad, mae'n anodd i reolwyr gadw trywydd ar ba gyrsiau a wnaed

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd

A3 Cynnal rhaglen reolaidd o arsylwadau gwersi sydd â ffocws clir ar addysgu a dysgu

A4 Sicrhau bod y cofnod canolog unigol o wiriadau cyn cyflogi yn cynnwys dyddiadau cynnal y gwiriadau

A5 Cadw cofnod o hyfforddiant staff

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael â'r holl faterion cydymffurfio a nodwyd yn yr ymweliad monitro blynyddol diwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r polisi diogelu yn amlinellu'n ddigon clir yr hyn y mae angen i'r swyddog diogelu dynodedig ei wneud os bydd disgybl yn gwneud datgeliad.

**Argymhelliad 2: Adolygu pob polisi bob blwyddyn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers dechrau yn yr ysgol, mae'r pennaeth presennol wedi diwygio neu ailysgrifennu llawer o bolisïau'r ysgol. Mae wedi datblygu cronfa ddata fanwl o holl bolisïau presennol yr ysgol a'u dyddiadau diwygio. Mae amserlen ar gyfer adolygu pob polisi yn flynyddol.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod y polisi diogelu yn cysylltu â pholisïau perthnasol eraill**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r polisi diogelu bellach yn cynnwys rhestr o bolisïau perthnasol eraill, gan gynnwys polisïau gwrth-fwlio; ymddygiad, plant ar goll; e-ddiogelwch; atal; a recriwtio mwy diogel.

**Argymhelliad 4: Gwneud yn siŵr bod y polisi diogelu yn cynnwys manylion am y camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd os bydd honiad yn erbyn y pennaeth neu'r swyddog amddiffyn plant**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r polisi diogelu bellach yn amlinellu'r camau i'w cymryd os bydd honiad yn erbyn y pennaeth, sef y swyddog dynodedig ar gyfer diogelu.

**Argymhelliad 5: Gwneud yn siŵr bod amseroedd cywir yn cael eu cofnodi pan fydd dysgwyr yn gadael a mynd yn ôl i ystafell ddosbarth a chofnodion clir o'r gyrchfan a'r goruchwyliwr pan nad yw dysgwyr yn mynd yn ôl i wersi**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion manwl o'r amserau y bydd dysgwyr yn gadael gwersi ac yn dychwelyd iddynt. Mae staff addysgu a staff gofal yn cydweithio'n dda i sicrhau eu bod yn gwybod ble mae dysgwyr ar bob adeg.

**Argymhelliad 6: Gwella arsylwadau gwersi i ganolbwyntio ar ddysgu, cynnydd dysgwyr a safonau a deilliannau dysgwyr**

Ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Ers yr ymweliad diwethaf, nid yw'r ysgol wedi arsylwi gwersi. Fodd bynnag, mae'r pennaeth wedi datblygu rhaglen o arsylwadau gwersi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Argymhelliad 7: Gwella presenoldeb dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn y cartref. Fodd bynnag, nid yw ychydig bach iawn ohonynt yn ymhél ag addysg.

Nid yw pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd.

**Argymhelliad 8: Gwneud yn siŵr bod paneli gweld ym mhob ystafell berthnasol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae paneli gwylio gan bob ystafell a ddefnyddir gan ddisgyblion.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoliadol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru 158/2015, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel [3(2)(b)]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol Cymru (2003) ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Greenfields |
| **Rhif yr ysgol** | 6806005 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 01/10/2015 |
| **Perchennog** | CareTech UK |
| **Staff** | 1 pennaeth<br>1 dirprwy bennaeth<br>1 cydlynydd/athro AAA<br>2 athro<br>1 cynorthwyydd addysgu uwch<br>1 cynghorydd gyrfa<br>1 cynorthwyydd gweinyddol/derbynnydd |
| **Nifer y disgyblion** | 9 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd i ddisgyblion yng nghartrefi plant y cwmni |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163** | 10/05/2011 |

| | |
|---|---|
| **diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 03/11/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Jassa Scott | Arolygydd Tîm |